


# Nodyn Briffio



## Newid hinsawdd - trosolwg

**Friends of the Earth Cymru**

**Cyfeillion y Ddaear Cymru**

Mae'r hinsawdd yn newid. Yng Nghymru mae pobl yn sylwi ein bod yn cael llai o eira a rhew nag yr oeddem yn arfer ei gael yn y gaeaf, mae digwyddiadau o lawiad dwys a llifogydd yn dod yn fwy aml ac mae blodau'r gwanwyn, megis y cennin pedr, yn blodeuo yn gynharach. Yn fyd-eang, mae cynnydd mewn patrymau tywydd eithafol, megis sychder, stormydd a llifogydd.

### Pam fod yr hinsawdd yn newid?

Mae tystiolaeth wyddonol gref erbyn hyn bod y newidiadau hyn yn ganlyniad i weithgaredd dynol. Ein dibyniaeth ar danwyddau ffosil - glo, olew a nwy - i ddarparu gwres, trydan, pŵer cludiant a gofynion ynni eraill yw'r prif achos. Mae dinistriad fforestydd hefyd yn ffactor gyfrannol bwysig.

Pan losgir tanwyddau ffosil maent yn allyrru nifer o lygryddion a nwyon, megis carbon deuocsid (CO<sub>2</sub>). Caiff hwn ei adnabod fel nwy tŷ gwydr oherwydd, ar y cyd gyda nwyon naturiol eraill megis methan, ocsid nitrus ac anwedd dŵr (yn bennaf fel cymylau), mae'n helpu i gau mwy o wres yr haul yn yr atmosffer.

Unwaith y caiff ei ryddhau, bydd CO<sub>2</sub> yn aros yn yr atmosffer am hyd at 200 mlynedd, yn cynhesu'r blaned.

### Yr effaith tŷ gwydr

Heb effaith tŷ gwydr naturiol yr atmosffer, byddai'r ddaear tua 30°C yn oerach. Wrth i gyfran rhai o'r nwyon hyn yn yr atmosffer gynyddu, caiff mwy o wres yr haul ei gau gan godi tymheredd byd-eang ac ansefydlogi'r hinsawdd.

Mae rhai cemegau a wnaed gan ddyn, megis CFCs (chlorofluorocarbons), hefyd yn cyfrannu i hyn.

Mae symiau anferthol o CO<sub>2</sub> yn cael eu rhyddhau i'r atmosffer nawr o ganlyniad i weithgareddau dynol. Amcangyfrifir bod y lefelau yn uwch nag y buon am 20 miliwn o flynyddoedd. Mae cyfartaledd tymheredd byd-eang wedi codi gan 0.7% ers dechrau diwydiannu yn y 18fed ganrif.

### Tymheredd yn codi

Er nad yw'r codiad yma yn y tymheredd yn ymddangos yn arwyddocaol, rhaid cofio bod cyfartaledd tymheredd Cymru ond tua 5°C yn is nag y mae heddiw yn ystod yr oes yr iâ diwethaf. Mae astudiaethau gwyddonol diweddar yn amcangyfrif, os byddwn yn parhau i gynhyrchu nwyon tŷ ar y gyfradd bresennol, y gallai cyfartaledd tymheredd byd-eang godi gan swm tebyg dros y tua can

---

**Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru yn ysbrydoli atebion i broblemau amgylcheddol, sy'n gwneud bywyd yn well i bobl**

#### Cyfeillion y Ddaear Cymru:

- yn ymroddedig i ddiogelu'r amgylchedd a hyrwyddo dyfodol cynaliadwy ar gyfer Cymru
- yn rhan o fudiad ymgyrchu amgylcheddol mwyaf dylanwadol y DG
- yn rhan o'r rhwydwaith amgylcheddol mwyaf eang yn y byd, gyda dros 60 o fudiadau cenedlaethol ar draws pum cyfandir
- yn cefnogi rhwydwaith unigryw o grwpiau lleol sy'n ymgyrchu mewn cymunedau ledled Cymru
- yn dibynnu ar unigolion am dros 90% o'i incwm

I ymuno neu wneud cyfraniad, ffoniwch ni ar 0800 581 051

**Cyfeillion y Ddaear Cymru, 33 Oriol Arcêd y Castell, Caerdydd, CF10 1BY**

**Ffôn 029 2022 9577 Ffacs 029 2022 8775 Eboest cymru@foe.co.uk Gwefan www.cyddcymru.co.uk**

mlynedd nesaf. Mae effeithiau'r codiad bychan a fu mewn tymheredd hyd yma yn dod yn fwy amlwg. Mae rhewlifoedd yn mynd yn llai; lefel y môr yn codi; a bu cynnydd amlwg mewn tywydd eithafol megis sychderau, llifogydd a chorwyntoedd.

### **Cyfiawnder hinsawdd**

Newid hinsawdd yw'r bygythiad mwyaf difrifol sy'n wynebu pobl a'r amgylchedd. Y tlotaf fydd yn debygol o ddioddef fwyaf gan lifogydd, sychderau, methiant cnydau a lledaeniad afiechydon. Eto'r bobl dlotaf sydd leiaf cyfrifol am allyrru nwyon newid hinsawdd. Mae echdynnu tanwydd ffosil hefyd yn cael effaith drychinebus ar gymunedau ac amgylcheddau sensitif.

Gwledydd cyfoethog fel y DU sy'n gyfrifol am y mwyafrif o allyriadau CO<sub>2</sub> ac felly dylent ddangos arweiniad mewn torri allyriadau.

### **Gweithredu gan y Llywodraeth**

Mae angen mynd i'r afael â newid hinsawdd. Gall llywodraethau wneud hyn drwy wneud toriad cyson a chyraeddadwy mewn allyriadau CO<sub>2</sub> bob blwyddyn. Efallai mai ychydig bach o allyriadau CO<sub>2</sub> a ddaw o bŵer niwclear, ond mae'n ddrud, mae iddo broblemau mawr o ran gwastraff ac mae'n fygythiad i ddiogelwch. Ar gyfer dyfodol gwyrdd a glân rhaid i drydan a gwres ddod o ffynonellau adnewyddadwy a dylid gwastraffu llai o ynni.

Mae angen i'r diwydiant ynni ddod yn fwy effeithlon a chanolbwyntio ar helpu busnesau ac unigolion i ddod yn fwy ynni effeithlon. Bydd cynhyrchu ynni yn y cartref neu'r busnes drwy gyfuniad o unedau gwres a phŵer, tyrbinau micro, neu baneli solar yn lleihau allyriadau CO<sub>2</sub> a biliau. Ynni adnewyddadwy o dyrbinau gwynt, ffermydd llanw (yn manteisio ar bŵer y môr), tanwydd biomas ( o gnydau), yw'r atebion ar gyfer y dyfodol.

Dylai'r diwydiant hedfan fod yn gyfrifol am ei niwed i'r amgylchedd, ac mae angen mwy o fuddsoddi mewn dewisiadau megis cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus sy'n lleihau allyriadau CO<sub>2</sub>.

### **Beth ellir ei wneud am y peth?**

Mae llawer y gellid ei wneud i rwystro a gwrth-droi'r cynnydd mewn allyriad y nwyon sy'n newid yr hinsawdd. Rhaid rhoi llawer mwy o bwyslais ar fesurau arbed ynni, systemau ynni adnewyddadwy (megis gwynt, solar a phŵer llanw) a systemau cludiant cyhoeddus da. Mae gan y system gynllunio rôl i'w chwarae mewn sicrhau bod newid hinsawdd yn cael sylw drwy, er enghraifft, sicrhau fod pobl yn gallu gweithio, siopa a mwynhau cyfleusterau hamdden yn agos i'w cartrefi - gan leihau'r angen am deithio gormodol.

### **Ymunwch â'r Her Fawr**

Mae ymgyrch Yr Her Fawr Cyfeillion y Ddaear yn helpu pobl sy'n poeni am newid hinsawdd i bwysu ar eu Haelodau Seneddol i basio deddf sy'n gorfodi Llywodraeth y DU i wneud toriadau blynyddol o 3 y cant mewn allyriadau CO<sub>2</sub> blwyddyn ar ôl blwyddyn.

- Mae angen i Lywodraeth y DU weithredu yn awr i leihau allyriadau carbon deuocsid - o gynhyrchiad trydan, o gludiant ac o ddiwydiant. *Ymunwch ag ymgyrch newid hinsawdd Yr Her Fawr i ofyn i'r llywodraeth ddechrau gweithredu ar newid hinsawdd.*
- Gallwch hefyd weithredu yn eich cartref neu'ch swyddfa drwy arbed ynni a chefnogi mentrau ynni adnewyddadwy, osgoi teithiau awyr a cheir diangen a phrynu'n lleol. *Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan yn [www.foecymru.co.uk](http://www.foecymru.co.uk).*

